OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 1794

# Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014

## RHAN 6

## DIRYMU, DARPARIAETH DROSIANNOL A DIWYGIO

**Darpariaeth Drosiannol**

**22.** Pan na fo'r ystyriaeth o gŵyn yn unol â'r weithdrefn gwynion flaenorol wedi ei chwblhau ar yr adeg y daw'r Rheoliadau hyn i rym, rhaid ystyried y gŵyn honno yn unol â'r weithdrefn honno.

**Dirymu**

**23.** Mae Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2005(**1**) wedi eu dirymu ac eithrio i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddibenion rheoliad 22.

**Diwygio**

**24.**—(1) Ym mharagraff 10 o Atodlen 1 i Reoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007(**2**), yn lle "Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2005" rhodder—

"Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014."

(2) Yn rheoliad 9(1)(b)(iii) o Reoliadau Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Adolygu Penderfyniadau ar Godi Ffioedd) (Cymru) 2011(**3**) yn lle "Reoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2005" rhodder—

"Reoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014."

(**1**) O.S. 2005/3366 (Cy.263).
(**2**) O.S. 2007/1357 (Cy.128).
(**3**) O.S. 2011/964 (Cy.138).